Dychmygu S4C Newydd

Theatr Felin-fach, 26 Mawrth 2011

Trafodion y Gymanfa

Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant – Theatr Gydweithredol Troedyrhiw – IAITH: y ganolfan cynllunio iaith – Theatr Felin-fach

Cwmni Troed-y-rhiw

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Theatr Felinfach

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Dychmygu S4C Newydd

Theatr Felin-fach, 26 Mawrth 2011

Trafodion y Gymanfa

Cyflwyniad:

Euros Lewis, Cymrawd Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg - Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Chyfarwyddwr Artistig, Cwmni Theatr Cydweithredol Troed-y-rhiw

Wrth agor y gymanfa gwahoddodd Euros Lewis y gynulleidfa i fyfyrio ar nifer o gysyniadau a gynigiwyd i ni gan ambell i feddyliwr praff.

Yn gyntaf, gosodiad yr Athro Brian V. Street o Goleg y Brenin, Llundain, mai berf yw diwylliant nid enw. Proses ydyw, nid cynnyrch. Proses barhaus o greu a chytuno ystyron ac arwyddocâd. Proses o ymholi a thrafod, diffinio ac ailddiffinio ein profiad a'r cyfryngau rydym ni'n eu defnyddio i'w gyfleu.

Yn ail, fe'n hatgoffodd o un o ddadleuon craidd Raymond Williams[1], mai dychymyg sy'n creu cymunedau – cymdogaethau lleol a'r 'gymuned' genedlaethol fel ei gilydd. Ffrwyth ein cyd-ddyheu a'n dychymyg yw'r ddau.

Yn drydydd, cyfeiriodd at ddyfyniad o eiddo'r Athro Gwyn Alf Williams,

> *"Mae'r Cymry fel pobl wedi byw trwy greu ac ail greu eu hunain o un genhedlaeth i'r llall, fel arfer yn nannedd anfanteision, fel arfer oddi mewn i gyd-destun Prydeinig. Cynnyrch mae'r Cymry yn ei greu yw Cymru... os mynnan nhw ei chreu. Mae'n ofynnol arnyn nhw i ddewis gwneud hynny"*[2]*.* [Cyfieithiad y golygydd].

Yn bedwerydd, cyfeiriodd at honiad y diweddar Athro Phil Williams, nad gwlad o feirdd a chantorion yw Cymru yn bennaf ond gwlad o wyddonwyr. Yn ôl yr Athro Williams mae Cymru wedi cynhyrchu mwy o wyddonwyr *per capita* nac odid yr un genedl arall - a hynny, meddai, am fod yna nodwedd ymholgar yn ein diwylliant. Mae'n ail natur i ni holi cwestiynau ac i herio'n hunain yn ddeallusol. A dyna union *raison d'etre* y lleoliad lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal - Theatr Felin-fach. Onid dyletswydd gweithredwyr diwylliannol, o ba gyfrwng bynnag, yw holi cwestiynau?

Yn olaf, cyfeiriodd at y dyfyniad gan Joshua Fishman a ddosbarthwyd gyda llenyddiaeth y gynhadledd.

> *"Most importantly of all, I have cautioned that minorities cannot merely be miniaturised versions of the majorities that surround them, but must also be multilingual and multicultural carriers of a life style that is distinctively and historically their own"*[3]*.*

[1] Williams, R., 'Culture and Society 1780-1950', CUP, New York (1958, 1983).
[2] Williams, G.A., 'When Was Wales? A history of the Welsh', Penguin (1991)
[3] Fishman, J., yn 'Rebuilding the Celtic Languages', O Neill, D (gol.), Y Lolfa, Talybont (2005).

Y dasg sy'n sefyll, felly, yw trafod sut y gall argyfwng presennol S4C droi'n gyfle i ni sefydlu cyfrwng neu gyfryngau newydd a all gyfrannu'n adeiladol a dychmygus i'n diwylliant cysefin? Pa fath S4C sydd ei angen arnom er mwyn parhau'r broses o greu ac ail greu ein Cymru?

Trafodaeth: Beth yw Darlledu Cyhoeddus?

Agorwyd y drafodaeth drwy holi: beth yw swyddogaeth darlledwr cyhoeddus?

Cafwyd beirniadaeth gyffredinol o ddiffiniad Yr Arglwyd Reith o rôl y darlledwr cyhoeddus ac o ddatganiad cenhadaeth y BBC:

> *"To enrich people's lives with programmes and services that inform, educate and entertain"*[4].

Mynegwyd y farn fod yna nodweddion tadogol, os nad nawddoglyd, ym meddylfryd Yr Arglwydd Reith yng nghyswllt darlledu cyhoeddus a bod cysgod hynny yn dal i'w weld o fewn y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Un nodwedd o hynny yw'r bwlch sy'n cael ei greu rhwng y darlledwr ar y naill law a'r gynulleidfa ar y llall. Y darlledwr gweithredol a'r gwyliwr/gwrandäwr goddefol. Rhywbeth rydyn 'ni' yn ei wneud iddyn 'nhw' yw model y BBC o ddarlledu ar y cyfan – ac mae hynny wedi bod yn nodwedd ganolog o ddarlledu cyhoeddus ym Mhrydain, gan gynnwys S4C.

Pwynt arall a wnaed yn ystod y trafod oedd bod tuedd i'r BBC fod yn 'gorfforaethol' ei natur - o ddiffiniad - a bod perygl, oherwydd cefndir gyrfaol unigolion allweddol yn y sianel, fod S4C hefyd wedi dilyn model sefydliadol ar yr un llinellau. Holwyd tybed a yw'r cyfrwng - a'r sefydliad hyd yn oed - wedi mynd yn bwysicach na'r cynnyrch a'r nod?

Nodwyd fod natur y cyfryngau torfol wedi newid yn aruthrol ers sefydlu S4C yn 1982. Mae patrymau gwylio'r boblogaeth a'r modd y mae pobl yn ymwneud â'r cyfryngau torfol yn newid yn barhaus. Nid yn unig fod y cyfryngau torfol wedi newid, amlhau ac anffurfioli ond mae mynediad iddyn nhw hefyd wedi cael ei ehangu ac mae rhyngweithio a dewis yn elfennau amlycach. Mae'r bwlch rhwng y cynhyrchwyr a'r gynulleidfa wedi culhau a swyddogaethau clir yr hen fodel yn dechrau cael eu drysu a'u pylu.

Codwyd cwestiwn ynghylch diben y cyllid a dderbynnir gan S4C. Ydy'r syniad mai i gynnal sianel deledu draddodiadol y clustnodir yr arian hynny yn dal i sefyll? Oni ddylid edrych ar y cyllid hwnnw fel cyfraniad cyffredinol i ddatblygu cyfryngau newydd cyfrwng Cymraeg o fewn y cyd-destun cyfoes? Mae'r cyd-destun diwylliannol, cymdeithasol a thechnolegol wedi newid yn gyfan gwbl ers yr 1980au. Oni ddylai S4C ail ddiffinio ei hun mewn ymateb i'r newidiadau hynny?

Nodwyd mai cynnyrch ymgyrchoedd iaith yr 1970au fu S4C. Ymgais i leihau tensiynau ieithyddol y cyfnod fu ei sefydlu. Bu cred gyffredinol ymysg siaradwyr Cymraeg mai un o swyddogaethau S4C oedd cyfrannu at 'achub yr iaith'. Fodd bynnag, ymddengys fod amwysedd wedi datblygu ynghylch sut mae S4C yn coleddu'r disgwyliadau hynny erbyn heddiw. Ydy S4C yn gweld ei hun yn rhan o arfogaeth cynllunio iaith yng Nghymru neu ydy hi'n hapusach i bortreadu ei hun fel darlledwr prif-lif yn y cyd-destun Prydeinig a rhyngwladol? Gall y ddwy swyddogaeth gydorwedd?

[4] http://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/purpose/

Cynigiwyd cymhariaeth â'r broses o sefydlu Prifysgol Cymru ddiwedd y 19eg ganrif. Tybed a oedd y werin Gymraeg a gyfrannodd eu ceiniogau prin at sefydlu'r colegau hynny yn llawn sylweddoli'r sefydliad Seisnig a grëwyd ar eu cyfer? Ceir tensiwn yn aml rhwng disgwyliadau ymgyrchwyr a'r realiti sefydliadol sy'n deillio o ymgyrchu llwyddiannus.

Yn y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol cyfredol – yn dilyn datganoli a chanlyniad y refferendwm diweddar – codwyd y cwestiwn a oedd hi'n amserol bellach i feddwl am S4C fel sianel genedlaethol Gymreig ddwyieithog?

Ysbryd Arloesi Blynyddoedd Prawf S4C[5]

Elain Price, Prifysgol Abertawe

Fe arweiniwyd y gymanfa gan Elain Price i feddwl am gyfnod sefydlu S4C er mwyn gweld a oedd yno wersi i'w dysgu i'r cyfnod presennol. Nododd mai arbrawf 3 blynedd oedd S4C i fod pan gyhoeddwyd ei sefydlu ar 17 Medi 1980. Doedd dim sicrwydd a fyddai'n parhau i fodoli heibio i'w chyfnod prawf ai peidio.

Gwerth yw cofio i S4C weithredu'n feiddgar ar ddechrau'r '80au, gan wthio ffiniau darlledu cyhoeddus ac ailddiffinio'r cysyniad drwy fabwysiadu model aml-gyfrannol o ddarlledu. Roedd BBC, HTV a'r Channel 4 newydd yn cyfrannu at yr arlwy ynghyd â nifer helaeth o gynhyrchwyr annibynnol. Mae'n debyg mai prin 15 unigolyn oedd hyd a lled y maes cynhyrchu annibynnol yng Nghymru yn 1981 ond erbyn 1982 roedd 46 cwmni darlledu wedi ei sefydlu yn barod i wasanaethu'r sianel a bod S4C wedi bod yn weithredol iawn yn annog a hyrwyddo'r cwmnïau hynny.

Bu hynny'n fodd i gyfrannu'n helaeth at greu diwydiant darlledu Cymraeg a fu'n gefn economaidd i rannau o'r Gymru wledig. At hynny, bu i'r cynhyrchwyr annibynnol wneud cyfraniad arloesol drwy roi llais a delwedd i gymunedau Cymru ynghyd â chyfleu treftadaeth lenyddol a hanesyddol y genedl ar sgrin. Roedd y datblygiad bwriadol yma o greu sector annibynnol hefyd yn fodd i blethu S4C i fywydau diwylliannol ac economaidd ei chynulleidfa.

Un thema a gododd ei phen o'r dechrau oedd y gred mai annoeth fyddai i S4C ddibynnu ar ffigyrau gwylio i gyfiawnhau ei bodolaeth. Yn wir, bu S4C yn gocyn hitio ar y cownt hynny gydol ei bodolaeth. Fodd bynnag, y gred oedd – i liniaru'r ymosodiadau hynny – y dylid amlygu'r gwerth ychwanegol a ddeuai o fodolaeth S4C o ran gwerth diwylliannol i'r genedl gyfan, budd economaidd trwy ei mentrau masnachol yn ogystal â'r gwasanaeth cyfoes dilys a ddarparai i leiafrif ieithyddol. Mae cyfraniad S4C i economi Cymru yn parhau i fod yn rhan greiddiol o resymoliad y sianel. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd sydd ohoni ymddengys nad yw'r ddadl honno hyd yn oed yn tycio bellach. Mae angen i S4C ystyried ei *raison d'etre* o'r newydd os yw i oroesi.

Rhag honni bod S4C yn arloesol ym mhob agwedd o'i gwaith yn y cyfnod prawf hynny nodwyd mai un cyfle a gollwyd oedd cyfle i osod trefn a allai feithrin perthynas agos â'i chynulleidfa yng nghyswllt cynllunio'r arlwy. Dibynnwyd yn drwm ar bwyllgora gyda'i phartneriaid corfforaethol o ran cynnwys a bu'r oedi cyn sefydlu Awdurdod S4C hefyd yn faen tramgwydd, gan beri i'r berthynas rhwng S4C a'i gwylwyr fod yn un lled braich gydol ei hanes.

Fodd bynnag, yn 2011 awgrymir bod angen i'r sianel ailymweld â'r ysbryd arloesol cychwynnol hwnnw a sicrhaodd lwyddiant y sianel wrth iddi ymsefydlu yn gwbl ddiysgog ym mhatrwm darlledu Cymru, a'i gwneud yn gymaint mwy nag arbrawf gydag amserlenni teledu.

[5] Gellid darllen y papur llawn ar y ddolen ganlynol: http://www.iaith.eu/uploads/ysbryd_arloesi_s4c.pdf

Cyfraniad ar sgrîn

Ned Thomas, Canolfan Mercator, Aberystwyth

Holwyd Ned Thomas gan Euros Lewis ar gamera cyn y gynhadledd am ei argraffiadau o'r sefyllfa gyfredol yng nghyswllt S4C a dangoswyd detholiad o'r cyfweliad hwnnw ar sgrîn yn ystod y gynhadledd. Mae'r isod yn grynodeb ac aralleiriad o'r cynnwys hwnnw.

Statws y Gymraeg

Mae S4C a theledu Cymraeg wedi bod yn gyfrwng arwyddocaol i roi statws i'r Gymraeg, yn gyfrwng i normaleiddio canfyddiad pobl o'r Gymraeg a'i siaradwyr. Mae S4C wedi arbed y Gymraeg rhag iddi ddatblygu i fod yn *patois* tanddaearol. Mae wedi cael dylanwad helaeth ar y gymdeithas ehangach hefyd, e.e. wedi dylanwadu ar dwf addysg Cymraeg. Mae teledu wedi bod yn hollbwysig yn nhwf y Gymraeg dros y cyfnod diwethaf. Gan fod statws wedi ei ennill drwy weithgareddau eraill hefyd bellach ydy hi'n amser i agor y cyfrwng i berchnogaeth ehangach?

Cyfryngau newydd

Mae model y pedair sianel a gafwyd yn 1982 wedi ei chwalu. Mae patrwm gwylio 'teuluol' wedi newid yn llwyr. Rhaid cofio y bu S4C ar flaen y gad yn y chwyldro darlledu sydd wedi digwydd. Mae angen iddi nawr i dorri tir newydd unwaith eto yn y cyd-destun cyfoes.

Mewn ymateb i doriadau ariannol mae modd cynhyrchu teledu am bris is ond rydyn ni wedi gosod safon uchel ar gyfer y Gymraeg. Mae disgwyliadau pobl o safon cynhyrchu ar S4C yn uchel. Bydd sicrhau dwy neu dair sianel yn anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni er mor ddymunol y byddai hynny. Fodd bynnag, mae cyfryngau newydd ar y We yn newid yn ddyddiol ac mae angen ystyried y llwyfannau hyn ochr yn ochr â sianel draddodiadol. Sut yn union y byddwn ni'n edrych ar y teledu ar ein ffonau neu gael mynediad i'r We drwy'r teledu – amser a ddengys. Ond i'r fan honno mae pethau'n mynd. Serch hynny, mae angen cynnal y safonau proffesiynol uchaf yng nghraidd y gwasanaeth.

Rwy'n bleidiol iawn i weld datblygu radio Cymraeg. Rydyn ni wedi colli tir yn hynny o beth dros y blynyddoedd.

Dwy sianel

Petasai rywun yn fy holi ble garen i i ni fod erbyn hyn o ran darlledu yng Nghymru, bydden i'n caru gweld fod gennym ni ddwy sianel Gymreig - un Saesneg ac un Gymraeg. Pe byddai S4C wedi dod i ofal y Cynulliad cyn bod ganddi bwerau deddfu dwi'n credu y byddai cymysgu'r ieithoedd ar S4C wedi ail-greu'r tensiynau iaith a gafwyd yn ystod y 70au. Hynny ydy, dadlau am ba iaith fyddai ar yr oriau brig ac ati. Nawr mae angen i'r Cynulliad a grwpiau pwyso fel Cymdeithas yr Iaith ac eraill alw am sianel Gymraeg a sianel Saesneg i Gymru dan yr un awdurdod. Roedd S4C yn flaenllaw iawn yn ei dydd o ran sicrhau teledu mewn iaith ranbarthol ond erbyn hyn mae sawl gwlad wedi ein goddiweddyd. Mae gan sawl iaith ranbarthol sawl sianel, yn cynnwys sianelau lleol ac ati.

Gellid cael amrywiaeth dda o raglenni ar drefn ddeublyg Cymraeg/Saesneg. Gellid cynnwys rhaglenni i ddysgwyr ar S4C, rhaglenni plant Cymraeg ar y ddwy, rhaglenni addysgiadol i ysgolion cynradd ac uwchradd a gellid agor trafodaeth gyda'r Brifysgol Agored ynglŷn â chynnyrch Cymraeg.

Y Cynnyrch

Wrth edrych yn ôl ar gyfnod sefydlu S4C, mantais fawr y sianel oedd natur Gymreig y cynnyrch. Mae cynnwys teledu llawer o wledydd eraill yn Ewrop yn Americanaidd iawn, e.e. Catalwnia a'r Eidal yn enwedig. Mae angen i S4C gyflwyno ac ail gyflwyno elfennau unigryw a thraddodiadol ein diwylliant ein hunain i ni - o Dalwrn y Beirdd i daflu coets yng ngodre Sir Aberteifi. Beth amdani?! Mae angen hyder i ymwrthod ag efelychu a mynd ati i gyflwyno'r cysefin mewn ffyrdd ffres.

Dyw'r diffiniad o'r 'lleiafrifol' ddim i wneud â niferoedd ond â grym gwleidyddol. Mae pob lleiafrif ar ryw lefel yn dymuno peidio bod yn lleiafrif. Yn deisyfu cyfle i gael anadlu yn llawn, fel petai. Mae hynny yn ei hun yn creu tuedd i efelychu'r diwylliant 'mwyafrifol'. Mae angen hyder i ymwrthod â'r duedd i efelychu diwylliant y mwyafrif a dilyn eich gwreiddioldeb diwylliannol eich hun.

Ydyn ni'n ffodus neu'n anffodus ein bod yn cael y newyddion drwy'r BBC? Ry'n ni'n ffodus fod sgôp yr hyn sy'n cael ei dderbyn yn fyd-eang drwy'r BBC ond dydy'r BBC ddim yn help i ni ddatblygu golwg unigryw Gymreig ar y byd.

Cofier ei bod hi'n rhan o'n diwylliant fel Cymry i annog amaturiaid i gyfrannu. Mae'r ffiniau rhwng yr amatur a'r proffesiynol yn nes nag mewn diwylliant 'mwyafrifol', e.e. ym myd y theatr. Rydyn ni angen cau'r bwlch *pro/am* ym maes darlledu hefyd ac annog mwy o ymwneud gan 'amaturiaid'. Tybed a yw'r cyfryngau newydd yn fodd o wneud hynny?

Cyfryngau Ar-lein Cymraeg

Rhodri ap Dyfrig, Prifysgol Aberystwyth

Mae cyfryngau ar-lein yn datblygu'n barhaus. Dydy cyfryngau ar-lein cyfrwng Cymraeg megis egin dwf ar hyn o bryd, serch ymdrechion glew gan nifer o unigolion a phrosiectau. Un cwestiwn sydd angen ei ofyn yn y sefyllfa gyfredol yw: sut all S4C gyfrannu at hwyluso twf cyfryngau ar-lein cyfrwng Cymraeg?

Yn sicr, mae angen cryfhau'r agweddau digidol ar ddarlledu Cymraeg a symud ymlaen gyda'r dechnoleg newydd yn barhaus. A all S4C.com, tybed, ddatblygu'n borth ar gyfer Cymraeg i gyfryngau ar-lein? Mae amheuaeth a fyddai hynny'n ddatblygiad doeth neu hyd yn oed yn bosibl ar draws pob fformat. Opsiwn arall fyddai datblygu brand S4C ar lwyfannau eraill. Gallai S4C sefydlu ei hun yn barth Cymraeg ar draws y llwyfannau hynny. Mae'n sefyll, fodd bynnag, mae'r dechnoleg gyfredol sy'n gwthio'r dechnoleg newydd. Beth yw rôl S4C yn hyn?

Mae'r cyfryngau newydd sy'n datblygu yn galw am fodelau newydd o ran cynnwys, cyfrwng a threfniadaeth, e.e. trwyddedu a chytundebu. Megis dechrau edrych ar hynny rydym ni yn y Gymraeg (ac yn y Saesneg petasai'n dod i hynny). Mae dirfawr angen gwneud er mwyn rhyddhau creadigrwydd unigolion a phosibiliadau masnachol.

Tybed a oes angen i S4C newid y pwyslais o gomisiynu cynnyrch yn y modd traddodiadol i fuddsoddi mwy mewn prosiectau ar-lein, llai eu maint ac arloesol eu natur, gan sefydlu cronfeydd buddsoddi y gall unigolion a chyweithiau newydd gynnig amdanyn nhw? O edrych yn ôl i fenter a blaengaredd y cyfnod sefydlu, gellid dadlau bod angen amlhau'r arloesi unwaith eto – rhoi cyfle i gymaint fyth o bobl i roi cynnig ar gymaint fyth o flaengareddau â phosibl.

Rhaid datblygu dulliau cysefin o greu deunydd ar-lein a meithrin cynulleidfa newydd i'r cyfryngau newydd yma yn y Gymraeg. O ran cynllunio iaith mae angen gweld y We fel cyfrwng a phau lle mae defnyddio Cymraeg yn norm. Mae lle hefyd i ddwysau cydweithio rhwng darparwyr cyfryngol – yn weisg, gwefannau a darlledwyr traddodiadol.

Mae angen datblygu'r dechnoleg yn ogystal â'r cyfrwng, e.e. gyda darlledu dros y We yn datblygu'n gyflym mae *'apps'* perthnasol yn cael eu creu gan gwmnïau masnachol i hwyluso hynny ar eu hoffer a rhaid i S4C sicrhau ei *'ap'* priodol hithau er mwyn sicrhau troedle ar y llwyfannau newydd yma.

O ran creu rhesymoliad newydd i S4C oni fyddai creu strategaeth ddarlledu aml gyfrwng yn y Gymraeg yn ddadl dros gael mwy o gyllid cyhoeddus, nid llai ohono? Mae gwersi i'w dysgu o Wlad y Basg lle mae ETB yn arloesi gyda llwyfannau amlgyfrwng mewn Basgeg a Sbaeneg ar gyfer trigolion y wlad. Mae'n ymddangos eu bod yn llwyddo i wireddu'r slogan gyfoes honno - gwneud mwy am lai. Mae enghreifftiau diddorol i'w gweld yn Llydaw ac ymysg brodorion Canada yn ogystal lle nad oes darlledwyr cyhoeddus yn gyfrannu at gynnal eu hieithoedd.

Ymddengys fod y modelau newydd o ddarlledu aml gyfrwng yma yn tanseilio'r hen fodel Reithaidd tadogol o'r darlledwr cyhoeddus. Mae'n dod â'r bobl a'r cyfrwng at ei gilydd. Mae'r berthynas yn fwy rhyngweithiol, yn fwy agored a mwy creadigol. Gall y cyfryngau newydd yma fod yn fodd i S4C ail berthnasu â'u chynulleidfa a chyda cymdogaethau lleol a chynnig modd i siaradwyr Cymraeg gyfrannu'n weithredol a rhagweithiol i'r broses ddiwylliannol.

Rhai sylwadau

Peter Edwards, gwneuthurwr ffilmiau a chynhyrchydd teledu

Nododd Peter Edwards nad oedd am ail adrodd pwyntiau a wnaed ynghynt, gan gyfyngu ei sylwadau i ychydig o bwyntiau a chwestiynau newydd y dylid eu hystyried:

- Mae heriau sylweddol yn wynebu'r rhai sy'n ymddiddori mewn darlledu Cymraeg o ran herio'r *status quo* ond hefyd o ran ceisio cynnal y drefn ddarlledu Gymraeg mewn cyfnod o drawsnewid.
- Mewn ymateb i'r toriadau arfaethedig oni ddylid ystyried atebion masnachol, gan werthu cynnyrch yn rhyngwladol er mwyn adfer y 26% o doriadau?
- Awgrymodd ei bod yn amserol i gyflwyno elfen o gystadleuaeth newydd i'r sefyllfa gomisiynu, gan ddisgwyl i gynhyrchwyr greu incwm ychwanegol masnachol o'u cynnyrch er mwyn arbed cyllidebau cynhyrchu S4C?
- Onid yw trefn gomisiynu gyfredol S4C a'r pwyslais ar ddarparwyr 'mawr' yn rhwym o ladd creadigrwydd a ffresni syniadau yn y tymor canolig – yn groes i'r ethos a sefydlwyd yn y cyfnod cynnar?
- Onid yw'n gyfle i ail sefydlu S4C yn sianel ddwyieithog ar gyfer y genedl Gymreig newydd sy'n datblygu ar gyfer yr 21ain ganrif?
- Tybed a ddylid torri ar yr oriau darlledu cyfredol ac, o ystyried sut mae patrymau gwylio yn newid, buddsoddi mewn archif y gall gwylwyr ddewis a dethol ohono?
- Nododd fod S4C, yn ei farn ef, yn yfed y *'last chance saloon'* ond bod yr ateb i'r sefyllfa y tu hwnt i S4C ei hun ac mai mater gwleidyddol ydyw yn y bôn. Mae cyfle ac angen i bawb, felly, gyfrannu i'r trafod a dylanwadu ar yr ateb hwnnw.
- O gofio'r cyd-destun cymdeithasol newydd a'r newid parhaus mewn cyfryngau a phatrymau ymwneud â darlledu, onid teg holi a yw S4C bellach yn fodel sy'n addas i bwrpas?
- Mae'r argyfwng presennol yn gyfle i adolygu'r sefyllfa sydd ohoni drwyddi draw. Fodd bynnag, nid adolygu'r sefydliad ddylai'r dasg i fod, nid adolygu S4C fel corff a sianel, ond

adolygu'r defnydd a wneir o'r gyllideb a ddosberthir iddi. Onid oes defnydd amgen a helaethach y gellid ei wneud a'r gyllideb honno er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r byd darlledu newydd sy'n datblygu ar gyfer yr 21ain ganrif?

Rhai sylwadau

Owain Llŷr, gwneuthurwr ffilm

Yn yr un modd cafwyd rhai sylwadau byrfyfyr gan Owain Llŷr i'r perwyl canlynol:

- Bod angen sicrhau llawer mwy o gyfleoedd i'r genhedlaeth iau gael eu cynnyrch wedi ei weld a hynny drwy amrywiol ffyrdd dychmygus a newydd. Rhoddodd sawl enghraifft o sut allai hynny ddigwydd o'i brofiadau ar hyd a lled sawl cyfandir.
- Nododd yr angen ar i S4C anghofio am efelychu ffurfiau a fformatau Seisnig a Phrydeinig ond rhoi'r pwyslais ar greu o'r newydd ac ar wreiddioldeb a natur unigryw y diwylliant Cymraeg.
- Nododd yr angen dybryd i ddatblygu diwylliant clyweledol Cymraeg eang ei rychwant er mwyn sicrhau lle 'r Gymraeg ac i greadigrwydd siaradwyr Cymraeg yn yr 21ain ganrif.

Sylwadau wrth grynhoi

Gareth Ioan, Prif Weithredwr, IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Ar ddiwedd diwrnod llawn a chyffrous tasg anodd yw tynnu'r holl drafod a'r sylwadau treiddgar a wnaed ynghyd. Mae'n fy nharo i fod rhai themâu amlwg wedi ymddangos yn ystod y dydd, ceisiaf eu crynhoi.

Ymddengys ein bod wedi cymryd bodolaeth S4C yn ganiataol dros y blynyddoedd. Yn sicr mae ein syndod wrth geisio dygymod â'r toriadau sy'n cael eu gorfodi arni yn gyfredol yn awgrymu hynny. Pwy feiddia fygwth un o fegalithiau'r tirlun Cymraeg?

Ond a ydyn ni'n gytûn ar ei swyddogaeth? I beth ma' S4C yn dda? Ai gweinyddu sianel draddodiadol i'n goleuo, ein haddysgu a'n difyrru yn y Gymraeg yw ei diben? Ai hynny'n unig? Oes iddi swyddogaeth amgenach?

Cyfyd hyn gwestiynau lu. Ydyn ni oll, gan gynnwys S4C ei hun, yn coleddu'r canfyddiad fod S4C yn gyfrannwr allweddol at statws a hygrededd y Gymraeg fel iaith gyfoes a hyfyw, iaith a ellir ei defnyddio'n hyderus ym mheuoedd newydd y cyfryngau torfol? Ydyn ni'n rhannu gweledigaeth o S4C fel cyfrwng i lunio ac ail-lunio ein hunaniaeth fel cymuned iaith Gymraeg? Os felly, sut orau y gall S4C gyfrannu at y broses o greu cenedl yn yr 21ain ganrif? At hynny, felly, i ba raddau y dylid ymestyn y rôl honno i gynnwys ein cenedl gyfan – yn y ddwy iaith?

Mae gan y BBC ddatganiad gweledigaeth glir a chroyw. Er chwilio'n ddyfal ni ddes ar draws unrhyw ddatganiad o weledigaeth gyfatebol yng nghyswllt S4C, namyn disgrifiad cyffredinol o'i bodolaeth fel cartref i ddarlledu Cymraeg. O'i osod yn blaen - cwpwrdd yw S4C, yn ôl ei gwefan ei hunan, i ddal rhaglenni rhag eu gosod ar sianeli eraill. Tybed nad yw mireinio gweledigaeth S4C a diffinio ei swyddogaeth yn fan cychwyn i'r drafodaeth gyhoeddus? Yn rhan o hynny oni ddylid cymryd y cyfle i ddatgan yn gadarn ei swyddogaeth gwbl allweddol fel cyfrwng diwylliannol gwbl greiddiol i fywyd y gymuned iaith Gymraeg. Gallai peidio

ariannu'r swyddogaeth honno o'r pwrs cyhoeddus i lefelau digonol fod yn ddim llai nag ymosodiad marwol ar y Gymraeg.

Mynegwyd y farn gan lawer fod S4C wedi cymryd trywydd anghywir dros y blynyddoedd wrth geisio creu ei hun yn sefydliad darlledu 'traddodiadol' ym mowld y BBC. Tybed, o ganlyniad, fel gyda nifer o gyrff 'corfforaethol', fod cynnal y corff wedi tynnu oddi ar hyblygrwydd i ddilyn gweledigaeth ac ymateb yn greadigol i gyd-destunau newydd? Dichon ein bod, bellach, wedi cyrraedd penllanw S4C fel sefydliad darlledu corfforaethol 'traddodiadol'. Efallai ei bod hi'n amser i S4C fynd nôl i'r dyfodol er mwyn dysgu gwersi o ran cynnal amrywiaeth, arloesedd, dyfeisgarwch a hyblygrwydd gweithredol.

Gyda chyfnod newydd yn gwawrio onid yw'n gyfle newydd i ailddiffinio nid yn unig diben ond natur S4C? Mynegwyd yn ddigon eglur gan gyfranwyr iau (a'r nid mor ifanc) fod oes y darlledwr teledu 'traddodiadol' yn prysur ddirwyn i ben. Mae'r byd darlledu wedi newid yn gyfan-gwbl ers 1982. Serch ymdrechion diweddar y sianel, ymddengys fod y byd cyfryngol yn brasgamu o afael S4C ar ruthr. Mae cyfryngau newydd a llwyfannau newydd yn cael eu datblygu'n barhaus ac mae'n hollbwysig fod modd clywed a defnyddio'r Gymraeg yn y peuoedd newydd yma. Mae'n allweddol ein bod ni, fel siaradwyr Cymraeg, yn medru defnyddio'r cyfryngau yma i'n dibenion creadigol ni'n hunain. Mae angen modelau newydd o drefnu cynnwys, cyfrwng a threfniadaeth - a hynny ar fyrder - er mwyn sicrhau troedle i'r Gymraeg yn y bydysawd cyfryngol newydd sy'n lledu o'n blaenau.

Mae'n amser ar gyfer dychymyg a chreadigrwydd. Amser i sicrhau fod pyrth cyfryngol yn cael eu hagor a'u hymestyn i gynnwys creadigrwydd siaradwyr Cymraeg ac amser i ddychmygu'r pyrth cyfryngol hynny o'r newydd. Amser i lunio strategaeth gyfryngol gyfannol Gymraeg.

Defnyddiwyd y cymal 'democrateiddio'r cyfrwng' yn aml yn ystod y trafod. Mae'n siŵr nad sicrhau rhagor o'r rhaglenni pleidleisio bondigrybwyll yna a olygir ond yr angen i roi cyfle i'r lliaws gael mynegi eu hunain. Os mai'r bobl biau'r cyfrwng oni ddylid amlhau'r cyfleoedd i'r bobl gael eu dwylo ar y cyfrwng drwy roi llwyfannau amrywiol i gyfleu profiadau a dyheadau unigolion, rhwydweithiau a chymdogaethau Cymraeg. Rhoi llwyfan o'r newydd i'n gweledigaeth ni ein hunain ohonon ni ein hunain a'r byd o'n cwmpas.

Un elfen allweddol yn hynny, mae'n siŵr gen i, yw ymddiriedaeth. Rhaid ymddiried yng nghreadigrwydd byrlymus ein hunigolion a'n cymdogaethau unwaith eto. O wneud hynny a hwyluso ystod o lwyfannau newydd i'r Gymraeg gallai S4C ymwreiddio drachefn ym mywydau ei chynulleidfa ac ail afael yn y grym a'r weledigaeth a roes iddi ei bywyd yn y lle cyntaf.

* * *

Nodyn golygyddol

Seiliwyd yr uchod ar nodiadau ac argraffiadau'r golygydd o gyfraniadau'r cyfranwyr. Os oes camddehongli neu gamliwio, cyflwynir ymddiheuriadau diffuant ynghyd â chynnig agored i aralleirio fel bo'n briodol.

Hyderaf, fodd bynnag, fod y trafodion yn gyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth gyhoeddus gyfredol ynglŷn â sefydliad a chyfrwng sy'n allweddol i hyfywedd a pharhad y Gymraeg.

Gareth Ioan
6 Ebrill 2011